

Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

Map Cyflym o Dystiolaeth: Iechyd menywod Rhif adroddiad – REM 00045 (Hydref 2022)

Manylion y Map Cyflym o Dystiolaeth

Adolygiad wedi'i gynnal gan:

Canolfan Cymru ar gyfer Gofal Sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

Tîm Adolygu:

- Deborah Edwards
- Judit Csontos
- Elizabeth Gillen

Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC: Hydref 2022

Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid: 24^{ain} Hydref 2022

Map Cyflym o Dystiolaeth wedi'i gyhoeddi gan WCEC: Tachwedd 2022

Tîm WCEC:

- Adrian Edwards, Ruth Lewis, Alison Cooper, Micaela Gal a gyfrannodd at ddrafftio crynodeb o'r prif bwyntiau, adolygu, golygu, proses cyhoeddi.

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

REM00045. Map Cyflym o Dystiolaeth, Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru: Iechyd menywod. Hydref 2022

Ymwadiad:

Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

Map Cyflym o Dystiolaeth: Iechyd Menywod

Rhif adroddiad – REM00045 (Hydref 2022)

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

Beth ydy Mapiau Cyflym o Dystiolaeth?

Mae ein Mapiau Cyflym o Dystiolaeth (REMs) yn defnyddio **dulliau mapio neu gwmpasu adolygiadau systematig talfyredig** i ddarparu disgrifiad o natur, nodweddion a swm y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer parth polisi neu gwestiwn ymchwil penodol. Maent wedi'u seilio'n bennaf ar asesiad o grynodedau ac yn ymgorffori protocol a-priori, chwiliad systematig, sgrinio a thynnu data lleiaf. Gallant weithiau gynnwys arfarnu beirniadol, ond ni wneir unrhyw gyfuno dystiolaeth. Rhoddir blaenoriaeth, lle bo'n ddichonol, i astudiaethau sy'n cynrychioli cyfuno dystiolaeth yn gadarn. Maent wedi'u dylunio a'u defnyddio'n bennaf i **nodi ffocws sylweddol ar gyfer adolygiad cyflym, a bylchau ymchwil allweddol yn y sylfaen dystiolaeth.** (*D.S. Nid yw mapiau o dystiolaeth yn addas i gefnogi datblygu polisi ar sail dystiolaeth, gan nad ydynt yn cynnwys cyfuniad o'r canlyniadau.*)

Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Cefndir/ Nod y Map Cyflym o Dystiolaeth (REM)

Mae Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru'n bwriadu rhedeg galwad ariannu wedi'i gomisiynu ynglŷn â deall anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a mynd i'r afael â nhw. Diben y REM hwn oedd nodi bylchau a blaenoriaethau ymchwil a fydd o fudd i iechyd menywod yng Nghymru, er mwyn darparu sail at gyfer galwad ariannu arfaethedig. Ar sail adolygiad rhagarweiniol o'r llenyddiaeth, adborth o ymarfer ymgynghori cyhoeddus y GIG yng Nghymru a thrafodaethau pellach â'r grŵp rhanddeiliaid, penderfynwyd y byddai'r REM yn canolbwyntio ar nodi natur a graddau'r llenyddiaeth ar y meysydd pynciau a ganlyn sydd â blaenoriaeth: **ffordd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o gyfathrebu â menywod** ynglŷn â materion yn ymwneud ag iechyd menywod a phroblemau iechyd ehangach yn ystod cyfarfodydd clinigol; **mynediad i ofal iechyd arbenigol; endometriosis; menapos; materion yn ymwneud ag iechyd ac iechyd meddwl menywod, a phroblemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â chyflyrau penodol cysylltiedig â menapos neu iechyd mislifol** (adenomyosis; endometriosis; ffibroidau; gwaedu mislifol trwm, syndrom ofariau polysystig ac anhwylder dysfforig cyn mislif). Ni archwiliwyd bylchau ymchwil mewn meysydd a chyflyrau iechyd eraill, lle y gallai menywod hefyd ddod ar draws anghydraddoldeb, yn y REM hwn.

Darganfyddiadau Allweddol

Graddau'r sylfaen dystiolaeth

- **Cyfathrebu mewn cyfarfodydd gofal iechyd:** Roedd y sylfaen dystiolaeth yn cynnwys un adolygiad systematig (o endometriosis) a naw astudiaeth sylfaenol. Roedd yr astudiaethau sylfaenol yn canolbwyntio ar ganser y fron (n=2), meddygaeth mamolaeth (n=3), iechyd meddwl amenedigol (n=1), cyflyrau gynaeolegol (n=1), a chyflyrau amhenodol (n=2). Roedd tair astudiaeth yn canolbwyntio ar boblogaethau penodol: Affricanwyr trefol, ffoaduriaid Moslemaidd o Irac ac ymfudwyr heb eu dogfennu. Mae prosiectau cynlluniedig a rhai parhaus y mae NIHR yn eu hariannu'n cynnwys safbwyntiau clinigwyr o ran gwrandao ar fenywod ynglŷn ag iechyd, cyflyrau mislifol a gynaeolegol, menapos a chanserau menywod.

- **Mynediad i ofal iechyd arbenigol:** Roedd y sylfaen dystiolaeth yn cynnwys 19 adolygiad a 9 protocol. Y cyflyrau y rhoddwyd sylw iddynt oedd meddygaeth mamolaeth (n=8), iechyd rhywiol ac atgenhedlol (n=5), canser a sgrinio am ganser (n=4), iechyd meddwl amenedigol (n=4), iechyd meddwl (n=2), HIV (n=2) a chyflyrau amhenodol (n=3). Y poblogaethau penodol yr ymchwiliwyd iddynt oedd ffoaduriaid neu bobl wedi'u dadleoli (n=6), y rheini mewn gwahanol amgylchiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol (n=4), anabledau corfforol (n=3), digartref (n=2), ymfudwyr (n=2) y rheini sy'n dioddef o drais gan bartner agos (n=1) a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (n=1). Roedd yr adolygiadau'n canolbwyntio ar rwystrau a hwyluswyr (n=10), rhwystrau (n=5), profiadau (n=3), mapio'r dystiolaeth (n=3), ffactorau (n=2), rheolaeth (n=1), hwyluswyr (n=1), rhagfynegwyr (n=1), cysylltiadau (n=1), a chyffredinrwydd (n=1).
- **Endometriosis:** Roedd y sylfaen dystiolaeth yn cynnwys 121 o adolygiadau systematig yn edrych ar wahanol bynciau, gan gynnwys rheoli meddygol (n=22), rheoli llawfeddygol (n=15), bioleg/ molecwlaidd (n=12), ffactorau risg (n=11), a chyflyrau cydafiachedd (n=9). Nodwyd blaenoriaethau ymchwil gan Gynghrair James Lind (JLA), canllawiau NICE, astudiaeth sylfaenol benodol i Gymru (Boivin et al 2018), ac ymchwiliwyr yn y maes (n=2). Nodwyd galwadau ariannu diweddar y DU a oedd yn cwmpasu ymchwil labordy, etioleg endometriosis ac anhwylderau'r groth a rheoli meddygol ac anfeddygol.
- **Menopos:** Roedd y sylfaen dystiolaeth yn cynnwys 108 o adolygiadau systematig yn edrych ar wahanol bynciau, gan gynnwys therapïau hormonaidd (n=17), therapïau homeopathig (n=13), therapïau anhormonaidd (n=10), symptomau cenhedlol-wrinol menopos (n=7), therapïau amgen (n=6), ac ymyriadau dull o fyw (n=6). Nodwyd blaenoriaethau ymchwil fel rhan o ganllawiau NICE, gan Gymdeithas Menopos Prydain ac ymchwiliwyr yn y maes (n=3). Nodwyd galwadau ariannu diweddar y DU a oedd yn cwmpasu iechyd atgenhedlol a'r menopos, testosteron i drin symptomau, iechyd atgenhedlol menywod yn y gweithle a thirwedd hyb iechyd menywod.
- **Materion yn ymwneud ag iechyd ac iechyd meddwl menywod:** Roedd y sail dystiolaeth yn cynnwys 37 o adolygiadau'n edrych ar: iechyd meddwl amenedigol (n=23), iechyd meddwl cyffredinol (n=9), syndrom ofariâu polysystig (n=3), a thrais gan bartner agos (n=2). Roedd rhai adolygiadau'n canolbwyntio ar boblogaethau penodol, gan gynnwys menywod yn y carchar, menywod mewn gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnlol, iechyd meddwl menywod sy'n ffoaduriaid ac yn ymfudwyr ac iechyd meddwl menywod o wahanol grwpiau lleiafrifoedd. Nodwyd galwadau ariannu diweddar y DU a oedd yn cwmpasu: iechyd meddwl menywod ifanc, menywod a phartneriaid sydd wedi cael profiad o fod yn feichiog heb esgor ar faban byw, a pherimenopos a risg anhwylderau seiciatrig.
- **Problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â chyflyrau penodol cysylltiedig â menopos neu iechyd mislifol:** Roedd y sail dystiolaeth yn cynnwys 10 o adolygiadau systematig yn edrych ar: syndrom ofariâu polysystig (n=4), endometriosis (n=4) menopos (n=1), a mislif (n=1). Roedd yr adolygiadau'n canolbwyntio ar gyffredinrwydd (n=4), cysylltiadau (n=4), a rheolaeth (n=2).

Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael (o 2012, 2018, a 2021) hyd at fis Medi 2022. (Cwblhawyd chwiliadau ar wahân am bynciau gwahanol, gyda therfynau amser amrywiol oherwydd symiau amrywiol yr ymchwil oedd wedi'i chyhoeddi mewn meysydd penodol.)

Crynodeb o'r bylchau mewn tystiolaeth

- Mae yna **ddiffyg ymchwil sylfaenol ac eilaidd** sy'n edrych ar y **cyfathrebu rhwng menywod a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol** mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Mae tystiolaeth ymchwil eilaidd yn bodoli ond mae yna **fylchau yn y sylfaen dystiolaeth** ynglŷn â **mynediad i wasanaethau** sy'n darparu mân weithdrefnau gynaeolegol a dulliau

rheoli poen, neu **ofal ar gyfer llesiant ac iechyd mislifol, endometriosis, syndrom ofariau polysystig, menopos**, cyflyrau'r galon, clefydau awtoimiwn, anhwylderau sbectrwm hypersymudedd, enseffalomyelitis myalgig, COVID hir, ffibromyalgia, cyflyrau'r croen, neu ofal lliniarol a diwedd oes, sy'n feysydd â blaenoriaeth y mae Clymblaid Iechyd Menywod Cymru (2022) wedi'u nodi. Nid oes yna unrhyw alwadau ariannu byw sy'n edrych ar y pynciau hyn.

- O ran endometriosis, mae yna **ddiffyg tystiolaeth o adolygiadau** ynglŷn ag **addysg ac adnoddau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a meddygon i leihau amser gwneud diagnosis a gwella gofal**. Mae yna **fwlch yn y dystiolaeth** ar gyfer ymchwil sylfaenol ynglŷn â **gwybodaeth, ymyriadau ac offerynnau cefnogi** ar gyfer menywod ag endometriosis i'w helpu i **reoli eu symptomau** a gwella **ansawdd eu bywyd**.
- Mae swm sylweddol o dystiolaeth eilaidd yn bodoli ar y **menopos** ynghyd â **llond gwlad o flaenoriaethau ymchwil** ynglŷn â **thriniaeth a rheoli symptomau**. Roedd **cadarnhau a fu unrhyw ymchwil yn y meysydd blaenoriaeth hyn** ers cynhyrchu'r canllawiau a'r argymhellion **y tu hwnt i gwmpas** y REM hwn. Hoffai ymchwilwyr yn y maes weld ymchwil sylfaenol wedi'i chynnal ym maes **ansawdd bywyd**.
- Mae yna **ddiffyg argymhellion ymchwil** a thystiolaeth o adolygiadau sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd meddwl a materion penodol sy'n effeithio ar iechyd mislifol menywod, fel **adenomyosis, ffibroidau, gwaedu mislifol trwm ac anhwylder dysfforig cyn mislif**.